
*Rhif*: ***14*** *Enw'r Ardal o Gymeriad Morwedd:* **Bariau tywod a graean gorllewinol**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020
Sources: Ordnance Survey, Seazone, Pembrokeshire Coast National Park Authority, Natural Resources Wales

**ACM14:Bariau tywod a graean gorllewinol**



*Golygfa o gydran ogleddol ardal Carn Llidi yn SCA14 gyda SCA13 a SCA28 yn y canol*

## Disgrifiad Cryno

Mae'r ardal yn cynnwys môr uwchben dau far graeanllyd alltraeth yn rhedeg yn gyfochrog â'r forlin, gan adlewyrchu llif y llanw. Maent wedi eu lleoli i'r gogledd orllewin o Benrhyn Tyddewi ac i'r gorllewin o Fae y Santes Ffraid / i'r gogledd o'r Smalls yn y drefn honno. Maent yn gymharol fas o'u cymharu â gwely'r môr sy'n eu hamgylchynu, ond dim ond y gogledd sy'n fas, ar ddyfnder o tua 10m. Maent yn agored i wyntoedd y gorllewin ond ni chofnodwyd unrhyw longddrylliadau yma.

| Nodweddion Allweddol |
| --- |
| • Dau far hirfain o dywod graeanllyd yn gorwedd ar wely'r môr yn gyfochrog â'r morlin mewn llinell â llif y llanw ac yn fwy bas na'r moroedd o gwmpas.<br>• Mae i'r bar gogleddol don straen uchel ac mae'n cyrraedd dyfnder o 10m.<br>• Mae i'r bar deheuol don straen isel ac mae'n cyrraedd dyfnder o 50m.<br>• Does dim llongddrylliadau yn yr ardal.<br>• Rhan o SAC Morwedd Sir Benfro.<br>• Defnyddir yr ardal ar gyfer pysgota a byddai llongau masnachol yn croesi'r ardal ddeheuol.<br>• Byddai'r tir yn weladwy i'r dwyrain, yn enwedig o'r ardal ogleddol, ac mae'r ardaloedd yn ffurfio rhan o'r olygfa nas difethwyd oddiar yr arfordir.<br>• Ardal o fôr agored o gymeriad morol syml, cyson ac unedig nas difethwyd ar raddfa eang iawn, gydag ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored, yn unig a noeth.<br>• Mae nodweddion y ddwy ardal yn cael eu pennu bron yn gyfangwbl gan rymoedd naturiol dŵr, drwy ymchwydd y môr a'r tonnau, a'r gwynt. |
| **Dylanwadau ffisegol** |
| Dau far alltraeth o dywod graeanaidd, hirfain yn gyfochrog â'r forlin a set o gerhyntau llanwol (gogledd ddwyreiniol – de orllewin alltraeth o'r Bishops and Clerks; gogledd-gogledd-ddwyrain dwyrain – de-dde o Gwales a'r Smalls) ac yn ffurfio beisleoedd (<10m mewn ardal o ddyfnder 60 m; <50m mewn ardal o ddyfnder 70m). Mae'r bar mwy gogleddol, bas iawn yn gogwyddo'n gymhedrol (1-10°) i'r gwely môr sy'n ei amgylchynu ac wedi'i orchuddio gan foroedd sy'n agored i don straen uchel. Mae'n gorchuddio creigwely tywodfaen Paleosöig Isaf wedi'r ffawtio yn erbyn y Permo Triasig. Mae'r bar dyfnach ar ogwydd llai (<1°) ac wedi'i orchuddio gan foroedd o don straen isel. Tywodfeini a cherrig llaid o'r Paleosöig Uchaf yw'r creigwely gwaelodol. Mae'n bosib y bydd gwaddod y bar bas iawn yn cael ei effeithio ar gan gynnwrf storm.<br><br>Mae darn deheuol pob ardal yn rhan o SAC Morwedd Sir Benfro. |
| **Dylanwadau diwylliannol** |
| Mae'r ardal yn gysylltiedig â masnach morol ond ni chofnodwyd unrhyw longddrylliadau yn yr ardal. Mae pysgota môr yn digwydd yma. Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydi gosod, gwichiaid moch, potio cimychiaid a chrancod gyda'r potensial am dreillio ysgafn. Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol. |
| **Ansoddau esthedig, canfyddiadol a phrofiadol** |
| Ni ymwelwyd â'r ddwy ardal hon. Mae'r un ogleddol tua 5km o'r arfordir agosaf a'r un ddeheuol tua 13km. Y disgwyl yw y byddai'r bryniau uwch megis Carn Llundain neu Garn Llidi a thopiau'r clogwyni i'w gweld fel llinell un dimensiwn ar y gorwel pan fo'r gwelededd yn weddol /dda neu'n well. Serch hynny, yr ymdeimlad yn yr ardal byddai un o fôr agored ymhell o ddylanwad y tir, yn hytrach na'r cysylltiad gweledol hyn.<br><br>Mae i'r ardal gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa eang iawn, gydag ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored, yn unig a noeth. Mae ei ansoddau yn cael eu pennu bron yn gyfangwbl gan rymoedd naturiol dŵr, drwy ymchwydd y môr a'r tonnau a'r gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd o'r de-orllewin ac ar adeg tywydd garw mae'r môr yn debyg o deimlo'n fygythiol. Mae na debygolrwydd cryf o dawelwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd yn y môr agored hwn.<br><br>Bydd y nifer o longau hamdden yn gyfyngedig, ond efallai bydd ambell i gipolwg o longau masnach yn defnyddio'r llwybrau môr i'r gorllewin neu wedi'u hangori yn nwyrain yr ardal ddeheuol o gwmpas Bae Sain Ffraid. |
| **Buddion a gwasanaethau diwylliannol** |
| Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ar ffurf adloniant morol, i dreftadaeth |

naturiol ar ffurf ardal forol o'r môr ac o wely'r môr nas difethwyd ac i wasanaethau ysbrydol o ran yr ymdeimlad o wylltineb a chyswllt â natur.

## Grymoedd am newid

**Crynodeb**

Llai o rymoedd am newid lle y mae'r dyfroedd yn ddyfnach.

Byddai trwyddedau ar gyfer olew a nwy yn y dyfodol yn newid cymeriad yr ardal pe bai'n cael ei datblygu.

Yn y dyfodol efallai y bydd pwysedd am dynnu tywod o'r bar tywod mwy bas.

**Grymoedd Allweddol am newid**

| **Nodweddion Arbennig** | Prosesau naturiol/newid yn yr hinsawdd | Pwysedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Pwysedd datblygiad | Newid mewn rheolaeth tir | Defnydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysblander yr arfordir | | | | | | | |
| Ynysoedd | | | | | | | |
| Amrywiaeth yn y tirlun | | | | | | | |
| Pellter, llonyddwch ac Ardal Wyllt | | | | | | | |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cyfoeth o Gynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth o Archaeoleg | | | | | | | |
| Cymeriad Nodweddiadol yr Aneddiad | | | | | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| Mynediad at y Parc | | | | | | | |
| Lle i Anadlu | | | | | | | |
| Allwedd | | Newid i'r ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisol | | | | | |

## Sensitifeddau Allweddol

Cymeriad syml, agored gwyllt ac anghysbell gyda golygfeydd o'r arfordir gorllewinol a'r ynysoedd.

Mae'n ffurfio rhan o osodiad agored yr arfordir gorllewinol a'r ynysoedd, gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn edrych drostynt, yn cyfrannu at yr ymdeimlad o bellenigrwydd a gwylltineb yn yr ardaloedd hyn.

Gwerth cadwraeth natur morol i ran o'r ardaloedd.

Mae Llwybr Arfordir Penfro yn dderbynnydd sensitif, yn edrych dros yr ardal o bellter.